CBAC Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Allanol)

Cynnwys

Tudalen

Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar draws y rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau ac anghenion gofal a chymorth

Papur cwestiynau 4

Cynllun marcio 17

Mapio 50

Uned 5: Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael

Papur cwestiynau 51

Cynllun marcio 65

Mapio 86

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan					Rhif yr Ymgeisydd				
						0				

LEFEL 3

Iechyd a Gofal Cymdeithasol:
Egwyddorion a Chyd-destunau

Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar draws y rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau ac anghenion gofal a chymorth

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL (ASESIAD ALLANOL)

AM/PM [*dyddiad*]

1 awr 45 munud

At ddefnydd yr Arholwr yn unig		
Cwestiwn	**Marc Uchaf**	**Marc a Ddyfarnwyd**
1	**15**	
2	**20**	
3	**16**	
4	**14**	
5	**10**	
6	**12**	
7	**13**	
Cyfanswm	**100**	

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Gwybodaeth i ymgeiswyr

Cyfanswm y marciau am y papur yw 100.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Atebwch **bob** cwestiwn.

1. Yn ddiweddar, mae Stefan, ei wraig Anya a'u mab 6 oed Krystyn wedi colli eu cartref a'u holl eiddo mewn tân yn y tŷ. Roedd Anya a Krystyn yn yr ysbyty gyda mân anafiadau o ganlyniad i'r tân. Bellach, maen nhw wedi gwella yn llwyr, ac wedi cael cartref dros dro gan yr Awdurdod Lleol. Mae Krystyn wedi mynd yn dawedog *(withdrawn)* ac mae Anya yn poeni amdano.

   (a) Mae'n bosibl disgrifio profiad Krystyn fel 'Profiad Andwyol yn ystod Plentyndod' (ACE).

   Diffiniwch ystyr 'Profiad Andwyol yn ystod Plentyndod' (ACE). [2]

   .....

   .....

   .....

   .....

   (b) Mae colli eich cartref oherwydd bod tân yn y tŷ yn enghraifft o ddigwyddiad bywyd sydd ddim yn gallu cael ei ragweld.

   Rhowch enghraifft o **un** digwyddiad bywyd **arall** sydd ddim yn gallu cael ei ragweld ac **un** digwyddiad bywyd sydd yn gallu cael ei ragweld. [2]

   (i) Digwyddiad bywyd sydd ddim yn gallu cael ei ragweld:

   .....

   .....

   (ii) Digwyddiad bywyd sydd yn gallu cael ei ragweld:

   .....

   .....

(c) Gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson, esboniwch sut byddai colli ei gartref mewn tân yn y tŷ yn 6 oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn ddiweddarach mewn bywyd. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(ch) Mae Anya wedi rhoi gwybod i'w gweithiwr cymdeithasol ei bod yn pryderu am ei sefyllfa a'i bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi gan nad yw'n cael llawer o gefnogaeth gan Stefan.

Archwiliwch sut byddai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu cymhwyso'r ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya. [5]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

2. Mae Hasheed yn 19 oed ac mae ganddo barlys yr ymennydd. Mae'n astudio cyfrifiadureg yn y brifysgol. Nid yw'n gallu symud llawer, ac mae angen help arno wrth ymgymryd â llawer o weithgareddau bywyd bob dydd. Ar hyn o bryd, mae Hasheed yn byw gartref ond mae'n awyddus i rannu tŷ â ffrindiau yng nghanol y dref. Mae Hasheed am fyw mor annibynnol â phosibl. Mae ei rieni'n pryderu ei fod am gymryd y cyfrifoldeb hwn.

(a) Nodwch **ddau** wasanaeth gofal a chymorth sydd ar gael i gefnogi Hasheed. [2]

(i) .....

(ii) .....

(b) Esboniwch sut mae asesiadau cymhwysedd *(eligibility)* yn cael eu cynnal ar gyfer gwasanaethau neu gefnogaeth. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(c) Esboniwch rôl cynlluniau gofal a chymorth wrth gefnogi Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(ch) Trafodwch sut byddai datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu yn gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun. [8]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

3. Mae Anwen yn 82 oed ac mae ganddi arthritis. Mae hi'n byw ar ei phen ei hun ac yn anaml mae hi'n gadael y tŷ. Mae cymydog yn dod i'w gweld bob dydd ac yn ei helpu gyda gwaith tŷ. Yn ddiweddar, mae'r cymydog wedi sylwi nad yw Anwen yn llwyddo i ymdopi, ei bod wedi colli pwysau a'i bod yn ymddangos yn isel. Rhai dyddiau, nid yw Anwen yn ymolchi nac yn gwisgo ond mae'n aros yn ei dillad nos.

(a) Nodwch **ddau** reswm posibl am y newid yn ymddygiad Anwen. [2]

(i) .....

(ii) .....

(b) Esboniwch ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(c) Trafodwch sut byddai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol yn gallu cefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen. [8]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

4. Mae achosion o glwy'r pennau (haint firol trosglwyddadwy sy'n gwneud i'r chwarennau chwyddo) wedi cael eu cofnodi mewn prifysgol yng Nghymru.

(a) Esboniwch sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i leihau effeithiau clwy'r pennau a chlefydau trosglwyddadwy eraill yn ystod plentyndod yng Nghymru. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Archwiliwch rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fonitro iechyd y wlad. [8]

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

5. (a) Amlinellwch nod yr ymgyrch 'Amser i Newid Cymru'. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Strategaeth gan Lywodraeth Cymru yw 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ar gyfer hybu iechyd meddwl a llesiant, atal problemau iechyd meddwl a gwella gwasanaethau iechyd meddwl.

Trafodwch sut mae strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn monitro iechyd meddwl a llesiant. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

6. Mae 'Pum Ffordd at Les' yn ymgyrch hybu iechyd sy'n anelu at gefnogi a hybu iechyd meddwl a llesiant.

(a) Disgrifiwch **dri** argymhelliad sy'n deillio o'r ymgyrch 'Pum Ffordd at Les'. [6]

(i) .....

.....

(ii) .....

.....

(iii) .....

.....

(b) Mae'r ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' yn defnyddio'r dull newid ymddygiad. Dadansoddwch gryfderau a gwendidau'r dull newid ymddygiad mewn perthynas â hybu iechyd. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

7. Gall trefniadau gweithio amlasiantaethol hybu a gwarchod iechyd a llesiant.

(a) Esboniwch y term gweithio amlasiantaethol. [5]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Trafodwch rôl ac effeithiolrwydd dulliau sy'n gallu cael eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion. [8]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

CYNLLUN MARCIO

Canllawiau i arholwyr

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad, a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeiswyr yn ei ysgrifennu, yn hytrach na defnyddio'r dull o gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. *Mae cynnwys ymadrodd fel 'Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu rhywfaint o amrywiad yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid yw cwestiwn yn gofyn yn benodol am rywbeth, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr am ateb sy'n gywir ond wedi'i fynegi yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau sy'n cael eu marcio drwy fandiau mae cynlluniau marcio mewn dwy ran, y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Yn Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a chyd-destunau, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau i'w dyrannu ar gyfer cwestiwn i amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Caiff ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau eu hasesu yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle mae cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, caiff marc ei ddyfarnu am bob amcan asesu, a chaiff y marciau hynny wedyn eu hadio at ei gilydd i roi cyfanswm marciau ar gyfer y cwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth priodol: nid ydyn nhw'n cael eu tynnu o uchafswm oherwydd gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a gwirio a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os caiff y disgrifyddion ar y band isaf eu bodloni, dylai'r arholwyr symud i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os yw ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' i benderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw'r rhan fwyaf o'r ateb ym mand 2, ond bod ychydig o gynnwys band 3 hefyd, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a bennir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau y mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ymateb ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Rhaid i'r arholwyr gofio bod angen cyfeirio'n ôl at yr ateb wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a bennir yn briodol.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chysyniadau Deunyddiau Asesu Enghreifftiol cynllun marcio is-adran 2b						
Cwestiwn		**Ateb**	**Cyfanswm Marciau**	**AA1**	**AA2**	**AA3**
1		*Yn ddiweddar, mae Stefan, ei wraig Anya a'u mab 6 oed Krystyn wedi colli eu cartref a'u holl eiddo mewn tân yn y tŷ. Roedd Anya a Krystyn yn yr ysbyty gyda mân anafiadau o ganlyniad i'r tân. Bellach, maen nhw wedi gwella'n llwyr, ac wedi cael cartref dros dro gan yr Awdurdod Lleol. Mae Krystyn wedi mynd yn dawedog (withdrawn) ac mae Anya yn poeni amdano.*	2	2		
	(a)	*Gellid disgrifio profiad Krystyn fel 'Profiad Andwyol yn ystod Plentyndod' (ACE). Diffiniwch ystyr 'Profiad Andwyol yn ystod Plentyndod' (ACE).* Dyfarnwch hyd at **2 farc.** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Defnyddir y term 'Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod' (ACE) i ddisgrifio amrywiaeth eang o ddigwyddiadau trawmatig y gall plant eu hwynebu wrth dyfu i fyny ond sy'n cael eu cofio fel oedolyn. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
1	(b)	*Mae colli eich cartref oherwydd bod tân yn y tŷ yn enghraifft o ddigwyddiad bywyd sydd ddim yn gallu cael ei ragweld.* *Rhowch enghraifft o* ***un*** *digwyddiad bywyd* ***arall*** *sydd ddim yn gallu cael ei ragweld ac* ***un*** *digwyddiad bywyd sydd yn gallu cael ei ragweld.* Dyfarnwch **1 marc** am un ymateb cywir mewn perthynas â *digwyddiadau bywyd sydd ddim yn gallu cael eu rhagweld.* Dyfarnwch **1 marc** am un ymateb cywir mewn perthynas â *digwyddiadau bywyd sydd yn gallu cael eu rhagweld.* Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Digwyddiadau bywyd sydd ddim yn gallu cael eu rhagweld: • damweiniau • cael salwch difrifol • perthynas yn chwalu • colli swydd. Digwyddiadau bywyd sydd yn gallu cael eu rhagweld: • setlo lawr gyda phartner • priodi • symud i mewn i'ch cartref eich hun • dod yn rhiant • dechrau yn yr ysgol • dechrau gwaith. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	2	2		
1	(c)	*Gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson, esboniwch sut byddai colli ei gartref mewn tân yn y tŷ yn 6 oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn ddiweddarach mewn bywyd.* Dyfarnwch hyd at **6 marc**. Rhaid i'r ateb gyfeirio at y canlynol: Damcaniaeth seicogymdeithasol **Erikson** o ddatblygiad. Mae Krystyn yn y cyfnod datblygiad diwydrwydd yn erbyn israddoldeb ac mae'n datblygu cymwyseddau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gymdeithas h.y. ei	6		6	

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

		hunan-barch ac yn chwilio am gymeradwyaeth gan ei gyfoedion. Mae'n datblygu cryfderau a all ei helpu i ymdopi ag argyfyngau yn y dyfodol. **Dylanwad cadarnhaol profiadau yn ystod plentyndod cynnar:** Efallai y bydd Krystyn yn datblygu gwydnwch a hunan-barch cadarnhaol drwy ennill cymeradwyaeth ei grŵp cyfoedion ac eraill drwy addasu i sefyllfaoedd anodd e.e. colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ, cael ei anafu, colli ei eiddo a chael ei ailgartrefu mewn llety dros dro. Efallai y bydd hyn yn ei alluogi i ymdopi â sefyllfaoedd heriol yn ddiweddarach mewn bywyd. **Dylanwad negyddol profiadau yn ystod plentyndod cynnar:** Efallai na fydd Krystyn yn datblygu gwydnwch a gall ddatblygu hunan-barch gwael os nad yw'n cael cymeradwyaeth gan ei gyfoedion ac eraill, oherwydd ei sefyllfa (colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ, cael ei anafu, colli ei eiddo a chael ei ailgartrefu mewn llety dros dro). Efallai y bydd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â sefyllfaoedd heriol yn ddiweddarach mewn bywyd. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson o ddatblygiad, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut byddai colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ yn 6 mlwydd oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn ddiweddarach mewn bywyd.
2	**3-4 marc** Esboniad da gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson o ddatblygiad, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ yn 6 mlwydd oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn diweddarach mewn bywyd.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol gan gyfeirio at ddamcaniaeth seicogymdeithasol Erikson o ddatblygiad, gan ddangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut byddai colli ei gartref oherwydd tân yn y tŷ yn 6 mlwydd oed yn gallu dylanwadu ar ymddygiad Krystyn yn ddiweddarach mewn bywyd.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
1	(ch)	*Mae Anya wedi rhoi gwybod i'w gweithiwr cymdeithasol ei bod yn pryderu am ei sefyllfa a'i bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi gan nad yw'n cael llawer o gefnogaeth gan Stefan.* *Archwiliwch sut byddai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu cymhwyso'r ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya.* Dyfarnwch hyd at **5 marc**. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: **Carl Rogers** a'r dull person-ganolog: • mae angen i unigolion hunanwella a dylai gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol weithio gydag Anya (grymuso) i'w galluogi i oresgyn ei phryderon ac i ymdopi â'i sefyllfa drwy ddangos empathi, cyfathiant ac ystyriaeth gadarnhaol ddiamod tuag ati. • Gallai'r gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfeirio Anya at gwnsela ar ffurf therapi grŵp neu gyfleoedd gwirfoddoli, i'w helpu i wella yn dilyn trawma colli ei chartref a'i heiddo ac i weld y dyfodol mewn ffordd fwy cadarnhaol er mwyn symud ymlaen. Gall hyn roi'r ymdeimlad iddi nad yw ar ei phen ei hun ac y gall roi cefnogaeth i eraill mewn sefyllfa debyg yn ogystal â derbyn cefnogaeth ganddyn nhw. Gall hyn helpu i adfer ei hyder, ei hunan-barch a rhoi cyfeiriad iddi ganolbwyntio ar ei bywyd. • Gallai gweithiwr cymdeithasol Anya ei helpu i fynd ati i ddod o hyd i gartref newydd. Byddai ailadeiladu bywyd ei theulu yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i Anya. **Hierarchaeth anghenion Maslow** - bydd Anya yn diwallu ei hanghenion sylfaenol ond ni fydd yn cyflawni ei llawn botensial drwy golli'r hyn yr oedd wedi'i gyflawni gyda'i theulu. Drwy gyfeirio Anya at grwpiau hunan-gymorth a gwirfoddoli a'i galluogi i gymryd rhan weithredol wrth ddod o hyd i gartref newydd, bydd yn ennill mwy o reolaeth dros ei bywyd ac yn cael mwy o foddhad Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	5			5

Band	AA3
3	**5 marc** Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl er mwyn ystyried sut y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gymhwyso egwyddorion y ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya.
2	**3-4 marc** Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn ystyried sut y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gymhwyso egwyddorion y ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya.
1	**1-2 farc** Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth er mwyn ystyried sut y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gymhwyso egwyddorion y ddamcaniaeth ddyneiddiol er mwyn rhoi gofal a chymorth effeithiol i Anya.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
2	(a) (i, ii,)	*Mae Hasheed yn 19 oed ac mae ganddo barlys yr ymennydd. Mae'n astudio cyfrifiadureg yn y brifysgol. Nid yw'n gallu symud llawer, ac mae angen help arno wrth ymgymryd â llawer o weithgareddau bywyd bob dydd. Ar hyn o bryd, mae Hasheed yn byw gartref ond mae'n awyddus i rannu tŷ â ffrindiau yng nghanol y dref. Mae Hasheed am fyw mor annibynnol â phosibl. Mae ei rieni'n pryderu ei fod am gymryd y cyfrifoldeb hwn.* *Nodwch **ddau** wasanaeth gofal a chymorth sydd ar gael i helpu Hasheed.* Dyfarnwch **1 marc** am bob ymateb cywir hyd at uchafswm o **2** farc. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: • darparu addasiadau i'r tŷ • gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn helpu gydag anghenion gofal personol Hasheed • y trydydd sector e.e. er mwyn cynorthwyo ag anghenion trafnidiaeth • darparu technoleg gynorthwyol. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	2	2		

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
2	(b)	*Esboniwch sut mae asesiadau cymhwysedd (eligibility) yn cael eu cynnal ar gyfer gwasanaethau neu gefnogaeth.* Dyfarnwch hyd at **4 marc**, un marc am bob esboniad perthnasol. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Rhaid i asesiad ar gyfer gofal a chymorth fod yn seiliedig ar sgwrs rhwng yr ymarferwr iechyd a gofal cymdeithasol a'r unigolyn, ac unigolion perthnasol eraill, er mwyn deall y canlyniadau llesiant personol y mae'r unigolyn yn awyddus i'w cyflawni a sut y gall gael cefnogaeth i'w cyflawni. Fel rhan o'r sgwrs, dylai'r ymarferwr: • asesu amgylchiadau'r unigolyn a'u hystyried • ystyried ei ganlyniadau llesiant personol • asesu unrhyw rwystrau sy'n ei atal rhag cyflawni'r canlyniadau llesiant a'u hystyried • asesu unrhyw risgiau i'r unigolyn neu i unigolion eraill os nad yw canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni, a'u hystyried • asesu cryfderau a galluoedd yr unigolyn a'u hystyried. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	4		4	

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
2	(c)	*Esboniwch rôl cynlluniau gofal a chymorth wrth gefnogi Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.* Dyfarnwch hyd at **6 marc**. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Mae cynllun gofal a chymorth yn ddogfen ysgrifenedig sy'n nodi'r hyn a drafodwyd ag unigolyn yn ystod ei asesiad a beth fydd yn digwydd o ganlyniad i hynny, er mwyn iddo gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol. Dylid cynnwys Hasheed yn llawn wrth gynnal ei asesiad. Dylai ei gynllun gofal a chymorth nodi'r canlynol yn glir iawn: • beth mae ef eisiau ei gyflawni – ei ganlyniadau llesiant personol • ei gryfderau a'i asedau • beth mae'n gallu ei wneud drosto'i hun • pa gefnogaeth allanol mae'n ei chael • beth sy'n ei atal – y rhwystrau a'r risgiau • p'un a oes angen gwybodaeth a chyngor arno • pa gefnogaeth arall mae ef yn ei chael ar hyn o bryd, er enghraifft, gan aelod o'r teulu • pa wasanaethau cymunedol allai ei helpu • pa ofal a chefnogaeth fydd yn cael eu darparu gan y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd lleol • sut bydd ei gynnydd yn cael ei fonitro • dyddiad ei adolygiad nesaf • sut mae'r pecyn gofal a chymorth yn bodloni ei ganlyniadau llesiant personol cyffredinol, gan gynnwys ei lesiant emosiynol, cymdeithasol ac economaidd. Bydd hyn yn sicrhau bod Hasheed yn cael cefnogaeth i gyflawni ei ganlyniadau personol. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o rôl cynlluniau gofal a chymorth wrth gefnogi Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl cynlluniau gofal a chymorth wrth gefnogi Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rôl cynlluniau gofal a chymorth wrth gefnogi Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
2	(ch)	*Trafodwch sut byddai datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu yn gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.* Dyfarnwch hyd at **8 marc**. Gall atebion gyfeirio at: Efallai bydd datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu mewn amgylchedd cefnogol, sy'n galluogi, yn grymuso Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun sef byw mor annibynnol â phosibl yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol. Drwy ddatblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu, mae'n bosibl y bydd Hasheed yn gallu: • meithrin ei sgiliau datrys problemau, ei gymhwysedd cymdeithasol a'i ymdeimlad o bwrpas • meithrin agwedd gadarnhaol ac optimistaidd • gallu ymdopi â sefyllfaoedd anodd ac unrhyw broblemau y gall ddod ar eu traws • osgoi unrhyw ymddygiad peryglus • ymaddasu'n dda mewn sefyllfaoedd heriol • cynyddu ei hunanhyder • cynyddu ei hunan-barch • gwella ei hunan-gysyniad. Gall y drafodaeth ystyried agweddau cadarnhaol a negyddol. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8	4		4

Band	AA1	AA3
4	**4 marc** Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.	**4 marc** Trafodaeth fanwl ardderchog o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.
3	**3 marc** Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.	**3 marc** Trafodaeth dda o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.
2	**2 farc** Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.	**2 farc** Trafodaeth sylfaenol o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.
1	**1 marc** Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.	**1 marc** Trafodaeth gyfyngedig o sut y gall datblygu gwydnwch, meithrin cryfder a gallu helpu Hasheed i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol ei hun.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
3	(a) (i,ii)	*Mae Anwen yn 82 oed ac mae ganddi arthritis. Mae'n byw ar ei phen ei hun ac yn anaml mae hi'n gadael y tŷ. Mae cymydog yn dod i'w gweld bob dydd ac yn ei helpu i ymgymryd â gwaith tŷ. Yn ddiweddar, mae'r cymydog wedi sylwi nad yw Anwen yn llwyddo i ymdopi, ei bod wedi colli pwysau a'i bod yn ymddangos yn isel. Rhai dyddiau, nid yw Anwen yn ymolchi nac yn gwisgo ond mae'n aros yn ei dillad nos.* *Nodwch **ddau** reswm posibl am y newid yn ymddygiad Anwen.* Dyfarnwch hyd at **2 farc**. Dyfarnwch **1 marc** am bob ymateb cywir hyd at uchafswm o **2** farc. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Efallai fod Anwen: • yn unig • mewn poen oherwydd ei harthritis • yn teimlo ei bod wedi'i hallgáu'n gymdeithasol • yn ystod camau cynnar salwch megis dementia neu haint wrinol sy'n gwneud iddi deimlo'n sâl. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb addas arall.	2	2		

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
3	(b)	*Esboniwch ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd.* Dyfarnwch hyd at **6 marc.** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Gellir ystyried cysylltiadau cadarnhaol a negyddol rhwng incwm a'r canlynol: • tai • deiet • gweithgareddau cymdeithasol • gweithgareddau hamdden • mynediad at gyfleusterau/gwasanaethau a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd a llesiant. Er enghraifft: • ystyriwch effaith incwm ar dai • os bydd unigolyn yn derbyn pensiwn galwedigaethol yn ogystal â phensiwn y wladwriaeth pan fydd yn ymddeol, mae'n bosibl y bydd yn gallu fforddio byw mewn tŷ o ansawdd da, bydd yn gallu fforddio talu ei filiau gwres yn ystod y gaeaf a bydd yn llai tebygol o ddatblygu achosion cysylltiedig o afiechyd • ond gallai unigolyn sy'n derbyn pensiwn y wladwriaeth ei chael hi'n anodd fforddio gwresogi ei gartref yn ddigonol a gallai ddatblygu afiechyd o ganlyniad • ystyriwch effaith incwm ar weithgareddau cymdeithasol • os bydd unigolyn yn derbyn pensiwn galwedigaethol yn ogystal â phensiwn y wladwriaeth pan fydd yn ymddeol, mae'n bosibl y bydd yn gallu fforddio cymdeithasu a chyfarfod â ffrindiau a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau cymdeithasol, er enghraifft mynd allan am fwyd neu i'r theatr • os bydd unigolyn yn derbyn dim ond pensiwn y wladwriaeth, mae'n bosibl na fydd yn gallu fforddio mynd allan i gymdeithasu a chyfarfod â ffrindiau a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau cymdeithasol, er enghraifft mynd allan am fwyd neu i'r theatr a gall fod mewn perygl o gael ei hynysu'n gymdeithasol ac y bydd yn unig. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o ddylanwad ffactorau economaidd ar oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
3	(c)	*Trafodwch sut byddai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol yn gallu cefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.* Dyfarnwch hyd at **8 marc**. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Gall gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol gynnal asesiad a bydd yn trafod ag Anwen beth yr hoffai ei gyflawni a'r rhwystrau y mae angen eu goresgyn (e.e. corfforol, ariannol) i'w galluogi i gyflawni ei chanlyniadau iechyd a llesiant meddwl personol. Wedyn, mae cynllun gofal a chymorth yn cael ei ysgrifennu a fydd yn nodi'r hyn a drafodwyd ag Anwen yn ystod ei hasesiad a beth fydd yn digwydd o ganlyniad i hynny. Mae'n bosibl: • y bydd Anwen yn cael asesiad iechyd galwedigaethol er mwyn gweld a oes unrhyw anghenion gofal personol ganddi neu a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i'w chartref i'w helpu i ymdopi ag unrhyw anawsterau sy'n cael eu hachosi gan effeithiau arthritis • y bydd Anwen yn cael cynnig gwybodaeth a chyngor am grwpiau cymunedol a allai fod o gymorth iddi, er enghraifft, gwasanaeth cyfeillio sy'n gallu ei helpu i ymdrin â'i hynysu cymdeithasol • y bydd Anwen yn cael ei chyfeirio at ei meddyg teulu, a fydd yn gallu cynnal asesiad iechyd ac addasu ei thriniaeth yn unol â hynny • y bydd cael gafael ar wasanaethau yn golygu bod cyflyrau/sefyllfaoedd yn cael eu hystyried yn gynharach; gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen. Drwy gefnogi Anwen i gyflawni ei chanlyniadau llesiant corfforol a meddyliol, gall olygu y bydd ansawdd ei bywyd yn gwella, gall gynnal ei hannibyniaeth a chynyddu ei hunanhyder a'i hunan-barch Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8	4		4

Band	AA1	AA3
4	**4 marc** Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.	**4 marc** Trafodaeth fanwl ardderchog o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.
3	**3 marc** Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.	**3 marc** Trafodaeth dda o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.
2	**2 farc** Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.	**2 farc** Trafodaeth sylfaenol o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.
1	**1 marc** Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.	**1 marc** Trafodaeth gyfyngedig o sut y gallai ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol gefnogi canlyniadau llesiant corfforol a meddyliol Anwen.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3

4	(a)	*Mae achosion o glwy'r pennau (haint firol trosglwyddadwy sy'n achosi i'r chwarennau chwyddo) wedi cael eu cofnodi mewn prifysgol yng Nghymru.*
		
		Esboniwch sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i leihau effeithiau clwy'r pennau a chlefydau eraill sy'n cael eu trosglwyddo yn ystod plentyndod yng Nghymru.
		
		Dyfarnwch hyd at **6 marc**.
		
		Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:
		• Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn casglu ac yn dehongli data am lefelau clefydau heintus ymhlith y boblogaeth yng Nghymru. Mae heintiau fel clwy'r pennau yn cael eu goruchwylio'n gyson er mwyn
		  • canfod tueddiadau arwyddocaol,
		  • gwerthuso mesurau atal a rheoli
		  • rhybuddio gweithwyr proffesiynol a sefydliadau os bydd unrhyw fygythiad
		• y dull mwyaf effeithiol o reoli clwy'r pennau (a rhai clefydau eraill sy'n cael eu trosglwyddo yn ystod plentyndod) yw cynnal lefelau imiwneiddio uchel ymhlith grwpiau agored i niwed neu ymhlith y boblogaeth gyfan
		• Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at hyn drwy waith y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP) a'r Timau Diogelu Iechyd Lleol (HPT)
		• mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn monitro'r nifer sy'n derbyn a chwmpas yr holl imiwneiddiadau a argymhellir.
		
		Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.
			6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos tystiolaeth glir bod yr ymgeisydd yn deall sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i leihau effaith clwy'r pennau a chlefydau eraill sy'n cael eu trosglwyddo yn ystod plentyndod yng Nghymru.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos tystiolaeth bod yr ymgeisydd yn deall sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i leihau effaith clwy'r pennau a chlefydau eraill sy'n cael eu trosglwyddo yn ystod plentyndod yng Nghymru.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o dystiolaeth bod yr ymgeisydd yn deall sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i leihau effaith clwy'r pennau a chlefydau eraill sy'n cael eu trosglwyddo yn ystod plentyndod yng Nghymru.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3

4	(b)	*Archwiliwch rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fonitro iechyd y wlad.*
		
		Dyfarnwch hyd at **8 marc**.
		
		Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:
		• Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus, sef adnodd adrodd, i gasglu gwybodaeth am iechyd a llesiant y boblogaeth yng Nghymru; i ddarparu data hanfodol sy'n arwain buddsoddiad a darpariaeth gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn y dyfodol.
		• gall y Llywodraeth, cymunedau lleol, gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol, yn ogystal ag unigolion a'u teuluoedd, ddefnyddio'r wybodaeth i ysgogi a llywio camau gweithredu sy'n gwella ac yn gwarchod iechyd a llesiant y boblogaeth gyfan.
		• mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn cael ei chysylltu â dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Hyn sy'n llywio gwariant yn y dyfodol ac yn tynnu sylw at feysydd y mae angen gweithredu arnyn nhw neu y llwyddwyd i'w cyflawni.
		• mae'r wybodaeth yn cynnig trosolwg o'r newidiadau mewn iechyd a llesiant dros amser, mae'r data sy'n rhan o'r adnodd ar-lein yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod mor gyfredol a chywir â phosibl. Gellir defnyddio'r data hyn sydd wedi'u llunio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol wrth iddynt ddatblygu cynlluniau llesiant ac i lywio'r penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud.
		• Heb y data a gynhyrchir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ychydig iawn o wybodaeth fyddai ar gael i'r Llywodraeth i'w defnyddio i fesur:
		  • effeithiolrwydd y ddarpariaeth gwasanaethau,
		  • iechyd a llesiant y wlad ar hyn o bryd
		  • sut mae gofynion deddfwriaeth gyfredol yn cael eu bodloni.
		
		Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.
			8			8

Band	AA3
4	**7-8 marc** Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ynghyd ag ymchwilio trylwyr a manwl yn rhan o archwiliad i rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fonitro iechyd y wlad.
3	**5-6 marc** Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynghyd ag ymchwilio da yn rhan o archwiliad i rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fonitro iechyd y wlad.
2	**3-4 marc** Ymateb sylfaenol sy'n defnyddio rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ac yn ymchwilio rhywfaint yn rhan o archwiliad i rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fonitro iechyd y wlad.
1	**1-2 farc** Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth a fawr ddim ymchwilio yn rhan o archwiliad i rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fonitro iechyd y wlad.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
5		*Amlinellwch nod yr ymgyrch 'Amser i Newid Cymru'.*	4	4		
	(a)	Dyfarnwch hyd at **4 marc**, un marc am bob pwynt perthnasol. Gall atebion gynnwys: Mae'r ymgyrch 'Amser i Newid Cymru' yn: • anelu at ysbrydoli pobl i gydweithio er mwyn atal y stigma a'r achosion o wahaniaethu sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl • annog pobl i fod yn agored a chydnabod nad gwendid yw problemau iechyd meddwl • mae'r ymgyrch yn rhoi gwybod i unigolion am wahanol sefydliadau y gallant gysylltu â nhw i gael help a chyngor mewn perthynas ag amrywiaeth o wahanol broblemau iechyd meddwl • mae'n annog unigolion sydd wedi cael problemau iechyd meddwl i ddod yn hyrwyddwyr er mwyn helpu eraill. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.				

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
5	(b)	Strategaeth gan Lywodraeth Cymru yw 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ar gyfer hybu iechyd meddwl a llesiant, atal problemau iechyd meddwl a gwella gwasanaethau iechyd meddwl. *Trafodwch sut mae strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn monitro iechyd meddwl a llesiant.* Dyfarnwch hyd at **6 marc**. Gall atebion gynnwys: Mae'r strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ar gyfer hybu iechyd meddwl a llesiant , atal problemau iechyd meddwl a gwella iechyd meddwl wedi'i rhannu'n feysydd blaenoriaeth sy'n annog gwasanaethau statudol a sefydliadau yn y trydydd sector i wneud y canlynol: • rhoi mwy o ystyriaeth i'r tymor hir • gweithio'n well â phobl a chymunedau a gweithio'n well gyda'i gilydd • anelu at atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydlynol. Ymdrinnir â'r meysydd blaenoriaeth hyn drwy bennu nodau a chamau gweithredu allweddol y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Mae hefyd yn nodi sut mae'r cynnydd yn erbyn pob targed unigol yn cael ei fonitro (mesurau perfformiad). Mae mesurau perfformiad yn cael eu casglu fel arfer ar ffurf ystadegau o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac Arolwg Cenedlaethol Cymru (Fframwaith Canlyniadau), y GIG (Fframwaith Canlyniadau), Gwasanaethau Cymdeithasol (Fframwaith Canlyniadau). Mae'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol yn adolygu'r wybodaeth hon yn rheolaidd. Mae'r bwrdd hwn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, cynrychiolwyr o'r sector statudol a'r sector gwirfoddol a grwpiau proffesiynol. Gall fod yn sawl blwyddyn cyn i ganlyniadau monitro fod yn amlwg. Mae'n bosibl na fydd strategaethau yn effeithio ar unwaith ar iechyd a llesiant a gall fod yn sawl blwyddyn cyn gweld y canlyniadau. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6			6

Band	AA3
3	**5-6 marc** Ymateb da iawn sy'n trafod yn fanwl sut mae strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn monitro iechyd meddwl a llesiant.
2	**3-4 marc** Ymateb da sy'n trafod sut mae strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn monitro iechyd meddwl a llesiant.
1	**1-2 farc** Ymateb sylfaenol gyda rhywfaint o ymdrech i drafod sut mae strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn monitro iechyd meddwl a llesiant.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
6	(a) (I,ii,iii)	*Mae 'Pum Ffordd at Les' yn ymgyrch hybu iechyd sy'n anelu at gefnogi a hybu iechyd meddwl a llesiant.* *Disgrifiwch **dri** argymhelliad sy'n deillio o'r ymgyrch 'Pum Ffordd at Les'.* Dyfarnwch hyd at **6 marc**. Gall atebion gyfeirio at: Y pum ffordd at les yw: • bod yn sylwgar — bod yn ymwybodol o'r byd o'ch amgylch a'ch teimladau. Bydd myfyrio ar eich profiadau yn eich helpu i werthfawrogi beth sy'n bwysig i chi. • cysylltu — datblygu, ehangu ac atgyfnerthu perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol, treulio amser gydag eraill, ffrindiau a theulu, gwneud amser am sgwrs • bod yn weithgar — mae bod yn weithgar yn rhywbeth i bobl o bob oedran ac nid oes yn rhaid iddo gynnwys ymarfer corff dwys. Gall gweithgareddau gweithgar fel cerdded eich annog i ryngweithio'n gymdeithasol ac mae ymarfer corff yn gwneud i chi deimlo'n dda • dal ati i ddysgu — gall dysgu fod yn ddigwyddiad cymdeithasol lle y gallwch gwrdd â ffrindiau newydd yn ogystal â dysgu sgil newydd • rhoi — gall helpu eraill roi boddhad mawr ac mae'n creu cysylltiadau â'r bobl o'ch amgylch. Dyfarnwch **1 marc** am ddisgrifiad sylfaenol o bob argymhelliad. Dyfarnwch hyd at **2 farc** am ddisgrifiad da o bob argymhelliad. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6	6		

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
6	(b)	*Mae'r ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' yn defnyddio'r dull newid ymddygiad. Dadansoddwch gryfderau a gwendidau'r dull newid ymddygiad mewn perthynas â hybu iechyd.* Dyfarnwch hyd at **6 marc**. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Mae'r dull newid ymddygiad yn anelu at annog unigolion i fabwysiadu ffordd 'iach' o fyw drwy newid eu hagweddau a'u hymddygiad personol. Mae'n disgwyl i unigolion gymryd diddordeb yn eu hiechyd a chyfrifoldeb drosto. Cryfderau'r dull newid ymddygiad: • mae'n annog newidiadau personol • nid yw'n gorfodi'r unigolyn i wneud unrhyw beth • mae'n apelio at yr 'oedolyn' mewn person. Gwendidau'r dull newid ymddygiad: • nid yw'n hawdd newid ymddygiad • mae unigolion yn agored i ddylanwadau eraill • nid yw bwriadau unigol bob amser yn cael eu rhoi ar waith. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6	3		3

Band	AA1	AA3
3	**3 marc** Disgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r dull newid ymddygiad a ddefnyddir gan yr ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' er mwyn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus.	**3 marc** Dadansoddiad da iawn o gryfderau a gwendidau'r dull newid ymddygiad a ddefnyddir gan yr ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' er mwyn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus.
2	**2 farc** Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dull newid ymddygiad a ddefnyddir gan yr ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' er mwyn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus.	**2 farc** Dadansoddiad da o gryfderau a gwendidau'r dull newid ymddygiad a ddefnyddir gan yr ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' er mwyn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus.
1	**1 marc** Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r dull newid ymddygiad a ddefnyddir gan yr ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' er mwyn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus.	**1 marc** Dadansoddiad sylfaenol o gryfderau a gwendidau'r dull newid ymddygiad a ddefnyddir gan yr ymgyrch 'Pum Ffordd at Les' er mwyn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
7	(a)	*Gall trefniadau gweithio amlasiantaethol hybu a gwarchod iechyd a llesiant.* *Esboniwch y term trefniadau gweithio amlasiantaethol.* Dyfarnwch hyd at **5 marc**. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: • mae trefniadau gweithio amlasiantaethol yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd o amrywiaeth o asiantaethau er mwyn sicrhau arfer da wrth gydweithio er mwyn helpu unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau iechyd a llesiant personol a hybu a diogelu ei iechyd a'i les • mae'r ffordd hon o weithio yn galluogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau trydydd sector i helpu i hybu anghenion cyfannol a dymuniadau unigolion ac i gyfrannu at gynllun gofal a chymorth a fydd yn helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol tra'n cynnal ac yn hybu ei annibyniaeth a hybu a diogelu ei iechyd a'i les • mae trefniadau gweithio amlasiantaethol yn sicrhau gofal di-dor, yn anelu at sicrhau mynediad cyflymach i wasanaethau, bod llai o dasgau penodol yn cael eu dyblygu a gwell defnydd o adnoddau. Mae'n cynnig dull gweithredu mwy cydgysylltiedig wrth ddarparu gofal o ansawdd sy'n diogelu ac yn amddiffyn yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	5		5	

Band	AA2
3	**5 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut y gall trefniadau gweithio amlasiantaethol hybu a diogelu iechyd a llesiant.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall trefniadau gweithio amlasiantaethol hybu a diogelu iechyd a llesiant.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall trefniadau gweithio amlasiantaethol hybu a diogelu iechyd a llesiant.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
7	(b)	*Trafodwch rôl ac effeithiolrwydd dulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.* Dyfarnwch hyd at **8 marc**. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Mae hybu annibyniaeth yn cynyddu gwydnwch a'r gallu i ymdopi â sefyllfaoedd heriol. Mae'n gwella hunanhyder a hunan-barch sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant. Mae'r gwahanol ddulliau: • yn annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig a gweithgareddau hamdden yn y gymuned leol a chynyddu eu rhwydweithiau cymdeithasol • yn annog unigolion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant corfforol eu hunain drwy wneud newidiadau ffordd o fyw • yn hybu dull cadarnhaol o ddatrys problemau • yn hybu agwedd optimistaidd • yn hybu amgylcheddau cadarnhaol a blaengar • yn hybu cryfderau ac amrywiaeth unigolion. Dim ond os bydd unigolion yn ymgysylltu'n weithredol â'r dulliau hynny y bydd y dulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion yn llwyddiannus. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8	4		4

Band	AA1	AA3
4	**4 marc** Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.	**4 marc** Trafodaeth fanwl ardderchog o rôl ac effeithiolrwydd dulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.
3	**3 marc** Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.	**3 marc** Trafodaeth dda o rôl ac effeithiolrwydd dulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.
2	**2 farc** Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.	**2 farc** Trafodaeth sylfaenol o rôl ac effeithiolrwydd dulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.
1	**1 marc** Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.	**1 marc** Trafodaeth gyfyngedig o rôl ac effeithiolrwydd dulliau y gellir eu defnyddio i hybu a gwarchod gwydnwch unigolion.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Mapio Amcanion Asesu					
	Cynnwys	**AA1**	**AA2**	**AA3**	**Cyfanswm marciau**
1. (a)	**2.1**	**2**			
(b)	**2.1**	**2**			
(c)	**2.2**		**6**		
(ch)	**2.2**			**5**	**15**
2. (a) (i) (ii)	**2.3**	**1** **1**			
(b)	**2.3**		**4**		
(c)	**2.3**		**6**		
(ch)	**2.1**	**4**		**4**	**20**
3. (a) (i) (ii)	**2.1**	**1** **1**			
(b)	**2.1**		**6**		
(c)	**2.3**	**4**		**4**	**16**
4. (a)	**2.3**		**6**		
(b)	**2.4**			**8**	**14**
5. (a)	**2.3**	**4**			
(b)	**2.4**			**6**	**10**
6. (a) (i) (ii) (iii)	**2.5**	**2** **2** **2**			
(b)	**2.5**	**3**		**3**	**12**
7. (a)	**2.5**		**5**		
(b)	**2.5**	**4**		**4**	**13**
CYFANSWM		**33**	**33**	**34**	**100 Marc**
		33%	**33%**	**34%**	

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan					Rhif yr Ymgeisydd				
						0				

LEFEL 3

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Uned 5: Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL (Asesiad Allanol)

AM/PM [*dyddiad*]

1 awr 45 munud

At ddefnydd yr Arholwr yn unig		
Cwestiwn	**Marc Mwyaf**	**Marc a Ddyfarnwyd**
1	**20**	
2	**19**	
3	**23**	
4	**18**	
5	**20**	
Cyfanswm	**100**	

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Gwybodaeth i ymgeiswyr

Cyfanswm y marciau am y papur yw 100.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Atebwch **bob** cwestiwn.

1. Mae Sharon yn weithiwr gofal; mae hi'n rhoi gofal a chymorth i Jean sy'n 65 oed. Mae gan Jean symudedd cyfyngedig yn dilyn strôc.

   (a) Esboniwch sut byddai sefyllfa Jean yn gallu ei gwneud yn agored i gam-drin ariannol. [6]

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   (b) Rhowch **dair** enghraifft o arferion a fyddai'n gallu diogelu unigolion. [3]

   (i) .....

   .....

   (ii) .....

   .....

   (iii) .....

   .....

(c) Mae'n bwysig i bob gweithiwr gofal ddilyn cod ymarfer/ymddygiad er mwyn diogelu'r unigolion maen nhw'n eu cefnogi.

Diffiniwch un 'cod ymarfer/ymddygiad'. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(ch) Dadansoddwch sut mae dilyn codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu tuag at sicrhau hawliau unigolion fel Jean. [8]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

2. Mae Jess yn gweithio mewn canolfan ddydd gymunedol *(community day centre)* sy'n cefnogi unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Morgan yn 18 oed ac yn mynd i'r ganolfan ddydd gymunedol dair gwaith yr wythnos. Hyd yma, mae Morgan wedi bod yn byw gyda'i rieni, ond roedd am gael bod yn fwy annibynnol ac mae e wedi symud i fyw gyda'i frawd hŷn, Rhys, a Rhys sydd yn awr yn gofalu amdano. Ers iddo symud i fyw at Rhys, nid yw Morgan yn dod i'r ganolfan ddydd yn aml; pan mae Morgan yn dod yno, mae Jess yn sylwi bod ei ddillad yn frwnt a'i fod wedi colli pwysau. Ddoe, pan gyrhaeddodd Morgan y ganolfan, dywedodd wrth Jess na fyddai e'n dod yn ôl eto. Roedd wedi cynhyrfu'n lân.

(a) Disgrifiwch pam byddai Morgan yn gallu bod yn agored i gam-drin ac esgeulustod. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Rhowch **ddau** ffactor a fyddai'n gallu effeithio ar hawliau Morgan. [2]

(i) .....

.....

(ii) .....

.....

(c) Esboniwch sut byddai Jess yn gallu meithrin cydberthynas *(rapport)* â Morgan er mwyn helpu i'w ddiogelu rhag risg. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(ch) Trafodwch sut mae Jess yn gallu hybu cynhwysiant *(promote inclusion)* yn ei gwaith yn y ganolfan ddydd. [8]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

3. Mae Gina yn 85 oed. Mae hi wedi bod yn byw yn ei fflat ei hun ac mae hi'n cael cymorth a chefnogaeth gan ei mab Anthony i wneud tasgau bob dydd. Mae Anthony wedi bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â gofynion cynyddol gofalu am ei fam, gan fod ganddo ei deulu ei hun. Mae Anthony wedi bod yn trafod â Gina y posibilrwydd ei bod hi'n symud i gartref gofal preswyl.

(a) Amlinellwch ystyr y term 'llais, dewis a rheolaeth'. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Esboniwch y ffactorau a fyddai'n gallu cyfrannu at y risg y bydd Gina yn cael ei cham-drin a'i hesgeuluso os yw hi'n aros yn ei chartref ei hun. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(c) Gwerthuswch rôl y system arolygu wrth ddiogelu unigolion. [8]

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

……

(ch) Esboniwch sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cefnogi hawliau Anthony fel gofalwr. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

4. Mae Nora yn 14 oed ac mae ei brawd Leon yn 11 oed. Plant ar eu pennau eu hunain yn ceisio lloches yw'r ddau sydd wedi dod i Gymru yn ddiweddar o Albania. Mwslimiaid ydyn nhw a dydyn nhw ddim yn gallu siarad llawer o Saesneg. Cafodd Nora a Leon eu rhoi mewn gofal maeth. Nodwyd eu bod o bosibl wedi bod yn destun "masnachu plant" a chafodd Eiriolwr Masnachu Plant Annibynnol (ICTA) ei benodi ar gyfer y ddau yn dilyn cyngor Canllawiau Statudol.

(a) Disgrifiwch rôl Eiriolwr Masnachu Plant Annibynnol (ICTA). [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Esboniwch sut mae gweithwyr gofal yn gallu darparu gofal person-ganolog i Nora a Leon. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(c) Trafodwch sut gall yr agwedd sydd gan yr unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal. [8]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

5. Mae Ian yn 73 oed ac wedi bod yn byw tan yn ddiweddar gyda'i bartner tymor hir, Patrick. Mae Ian wedi cael cyfres o strociau ac, o ganlyniad, mae angen cefnogaeth arno i fwyta ac o ran ei ofal personol. Nid oedd am fod yn faich ar Patrick a phenderfynodd fyw mewn cartref gofal.

   Roedd Patrick yn pryderu am sut byddai'r staff a'r bobl eraill a oedd yn byw yn y cartref gofal yn trin Ian. Mae'r ddau yn poeni am safbwyntiau staff a phreswylwyr y cartref gofal pan fydd Patrick yn ymweld a sut byddan nhw'n cael eu trin.

   (a) Amlinellwch ystyr y termau canlynol:

   (i) "Gwahaniaethu drwy gysylltiad". [3]

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   (ii) "Gwahaniaethu drwy ganfyddiad". [3]

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

   .....

(b) Ar ôl ychydig wythnosau, clywodd Sarah, un o'r gweithwyr gofal, un o'r gweithwyr gofal eraill yn sôn am ymweliadau Patrick, gan ddweud bod y ddau yn fwy na dim ond ffrindiau ac yn gwneud sylwadau negyddol am eu perthynas. Mae Sarah yn meddwl y dylai hi drafod y mater â'i rheolwr ond mae hi'n ofni y bydd hi'n cynhyrfu ei chydweithiwr.

Esboniwch bwrpas polisi 'chwythu'r chwiban'. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(c) Archwiliwch y gwahanol ddulliau byddai gweithwyr gofal yn gallu eu defnyddio i sicrhau hawliau'r unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal. [8]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

CYNLLUN MARCIO

Canllawiau i arholwyr

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. *Mae cynnwys 'Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid yw cwestiwn yn gofyn yn benodol am rywbeth, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr am ateb sy'n gywir ond wedi'i fynegi yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun.

Cynlluniau marcio yn seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau sy'n cael eu marcio drwy fandiau mae cynlluniau marcio mewn dwy ran, y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Yn Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau i'w dyrannu ar gyfer cwestiwn i amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Mae ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn cael eu hasesu yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle mae cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn bydd y marciau hynny yn cael eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredin ar gyfer y cwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol; nid ydyn nhw'n cael eu didynnu o uchafswm oherwydd gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band hyd nes y bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau y mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn er mwyn penderfynu p'un a yw ateb ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Rhaid i'r arholwyr gofio bod angen cyfeirio'n ôl at yr ateb wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a bennir yn briodol.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol Deunyddiau Asesu Enghreifftiol cynllun marcio sub 2b						
ADRAN A						
Cwestiwn		**Ateb**	**Cyfanswm Marciau**	**AA1**	**AA2**	**AA3**

1	(a)	*Mae Sharon yn weithiwr gofal; mae hi'n rhoi gofal a chymorth i Jean sy'n 65 oed. Mae gan Jean symudedd cyfyngedig yn dilyn strôc.*
		
		Esboniwch sut byddai sefyllfa Jean yn gallu ei gwneud yn agored i gam-drin ariannol.
		
		Dyfarnwch hyd at **6 marc**
		
		Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:
		
		• Mae'n bosibl na fydd Jean yn gallu gadael y tŷ heb gymorth er mwyn defnyddio gwasanaethau bancio, felly mae'n bosibl:
		  • ei bod yn debygol o roi ei gwybodaeth ariannol i bobl eraill
		  • y bydd yn cadw arian yn y tŷ gan nad yw hi'n gallu mynd i'r banc yn rheolaidd
		• Efallai na fydd Jean yn gallu deall arian a chyllid mwyach a gallai hynny olygu ei bod yn agored i'r canlynol:
		  • sgamiau
		  • pobl eraill yn dylanwadu arni.
		
		Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.
			6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gallai sefyllfa Jean ei gwneud yn agored i gam-drin ariannol.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai sefyllfa Jean ei gwneud yn agored i gam-drin ariannol.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai sefyllfa Jean ei gwneud yn agored i gam-drin ariannol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
1	(b) (i),(ii), (iii)	*Rhowch **dair** enghraifft o arferion a fyddai'n gallu diogelu unigolion.* Dyfarnwch hyd at **3 marc**, un marc am bob enghraifft. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: • meithrin cydberthynas ag unigolion • sicrhau bod pob unigolyn yn teimlo bod ganddo lais a rheolaeth • sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth a chodau ymarfer a rhoi canlyniadau methu â gwneud hynny ar waith • darparu amgylchedd diogel. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	3	3		
	(c)	*Mae'n bwysig i bob gweithiwr gofal ddilyn cod ymarfer/ymddygiad er mwyn diogelu'r unigolion maen nhw'n eu cefnogi. Diffiniwch un 'cod ymarfer/ymddygiad'.* Dyfarnwch hyd at **3 marc** am ddiffiniad clir. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: • mae cod ymddygiad/ymarfer yn pennu'r safon ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr cefnogi gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion • mae'n amlinellu'r ymddygiad a'r agweddau y dylai unigolyn ddisgwyl i'r gweithwyr hynny sy'n darparu gofal a chymorth ac sydd wedi ymrwymo i'r cod ymarfer/ymddygiad eu dangos tuag atyn nhw • caiff cod ymarfer/ymddygiad ei ystyried yn ganllaw i ymarfer gorau • dylai codau ymarfer a chodau ymddygiad arwain y ffordd mae gweithwyr cefnogi gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol oedolion yn ymarfer yn eu gwaith o ddydd i ddydd er mwyn hybu diogelwch ac amddiffyn yr unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	3	3		

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
	(ch)	*Dadansoddwch sut mae dilyn codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu tuag at sicrhau hawliau unigolion fel Jean.* Dyfarnwch hyd at **8 marc** Gall yr ateb gyfeirio at sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn dweud wrth y gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol i wneud y canlynol: • gwarchod hawliau unigolion • hybu buddiannau unigolion • sicrhau ymddiriedaeth a hyder unigolion yn eu gofal a chymorth • hybu annibyniaeth unigolion • gwarchod unigolion, cyhyd ag y bo modd, rhag perygl a niwed • sicrhau bod unigolion yn gallu byw yn ddiogel heb gael eu cam-drin na'u hesgeuluso • grymuso unigolion drwy eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i roi cydsyniad gwybodus • sicrhau bod gweithwyr yn atebol am gynnal a gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain er mwyn darparu gofal o ansawdd i unigolion. Canlyniadau peidio â dilyn y codau ymddygiad/ymarfer: • ni fydd hawliau'r unigolyn yn cael eu cynnal • bydd y berthynas rhwng y gofalwr a'r unigolyn yn torri i lawr • efallai nad yw'r unigolyn yn ddiogel rhag cael ei gam-drin neu ei niweidio • efallai nad yw'n bosibl i'r unigolyn wneud ei benderfyniadau ei hun • ni fydd yr unigolyn yn teimlo wedi grymuso • gwahaniaethu yn erbyn yr unigolyn. • bydd ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu wedi'i gyfaddawdu • bydd diffyg sgiliau gan y gweithiwr gofal a bydd hynny'n effeithio ar ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8	4		4

Band	AA1	AA3
4	**4 marc** Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae dilyn codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu at sicrhau hawliau unigolion fel Jean.	**4 marc** Dadansoddiad manwl, rhagorol o sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu at sicrhau hawliau unigolion fel Jean, a chanlyniadau peidio â dilyn codau ymddygiad/ymarfer.
3	**3 marc** Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae dilyn codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu at sicrhau hawliau unigolion fel Jean.	**3 marc** Dadansoddiad da o sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu at sicrhau hawliau unigolion fel Jean, a chanlyniadau peidio â dilyn codau ymddygiad/ymarfer.
2	**2 farc** Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae dilyn codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu at sicrhau hawliau unigolion fel Jean.	**2 farc** Dadansoddiad sylfaenol o sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn helpu i warchod unigolion fel Jean, gan roi rhywfaint o ystyriaeth i ganlyniadau peidio â dilyn codau ymddygiad/ymarfer.
1	**1 marc** Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut mae codau ymddygiad/ymarfer yn gallu cyfrannu at sicrhau hawliau unigolion fel Jean.	**1 marc** Dadansoddiad cyfyngedig o sut gall codau ymddygiad/ymarfer helpu i amddiffyn unigolion fel Jean, heb fawr o ystyriaeth i ganlyniadau peidio â dilyn codau ymddygiad/ymarfer.
0	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
2		*Mae Jess yn gweithio mewn canolfan ddydd gymunedol (community day centre) sy'n cefnogi unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Morgan yn 18 oed ac yn mynd i'r ganolfan ddydd gymunedol dair gwaith yr wythnos. Hyd yma, mae Morgan wedi bod yn byw gyda'i rieni, ond roedd am gael bod yn fwy annibynnol ac mae wedi symud i fyw gyda'i frawd hŷn, Rhys, a Rhys sydd yn awr yn gofalu amdano. Ers iddo symud i fyw at Rhys, nid yw Morgan yn dod i'r ganolfan ddydd yn aml; pan mae Morgan yn dod yno, mae Jess yn sylwi bod ei ddillad yn frwnt a'i fod wedi colli pwysau. Ddoe, pan gyrhaeddodd Morgan y ganolfan, dywedodd wrth Jess na fyddai e'n dod yn ôl eto. Roedd wedi cynhyrfu'n lân.*				
	(a)	*Disgrifiwch pam byddai Morgan yn gallu bod yn agored i gam-drin ac esgeulustod.* Dyfarnwch hyd at **3 marc** am ddisgrifiad clir. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: • mae gan Morgan anghenion dysgu ac mae'n bosibl y bydd yn hawdd i bobl eraill ddylanwadu arno • efallai nad yw Rhys yn deall anghenion Morgan yn llawn (e.e. efallai fod angen cefnogaeth ar Morgan i ymolchi a gwisgo ac i baratoi prydau bwyd ac nad yw Rhys yn darparu'r gefnogaeth honno) • mae'n bosibl bod y gofynion sy'n gysylltiedig â gofalu am Morgan yn achosi rhwystredigaeth i Rhys • gall fod problemau neu sefyllfaoedd o ran perthynas Morgan â'i frawd nad yw'n eu trafod ag unrhyw un. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	3	3		
	(b)(i)(ii)	*Rhowch **ddau** ffactor a fyddai'n gallu effeithio ar hawliau Morgan.* Dyfarnwch hyd at **2 farc**, un marc am bob ffactor perthnasol. Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: • diffyg eiriolaeth i Morgan • gallu Morgan i ddeall gwybodaeth ac i wneud penderfyniad • gallu Morgan i gyfathrebu • gwrthdaro rhwng dymuniadau Morgan fel unigolyn a dymuniadau Rhys fel gofalwr • efallai nad yw Rhys yn ymwybodol o hawliau Morgan • diffyg cefnogaeth i Rhys fel gofalwr. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	2	2		

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
	(c)	*Esboniwch sut byddai Jess yn gallu meithrin cydberthynas â Morgan er mwyn helpu i'w ddiogelu rhag risg.* Dyfarnwch hyd at **6 marc** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Gall Jess feithrin cydberthynas â Morgan drwy wneud y canlynol: • creu cysylltiad a meithrin perthynas dda â Morgan drwy fod yn hi ei hun • dangos empathi at Morgan a dangos ei bod yn deall ei deimladau • dod o hyd i dir cyffredin â Morgan • treulio amser yng nghwmni Morgan er mwyn iddo ddod i ymddiried ynddi, efallai byddai hynny yn ei annog wedyn i drafod unrhyw beth sy'n ei gynhyrfu • meithrin perthynas o ymddiriedaeth er mwyn grymuso Morgan a gwneud iddo deimlo bod ganddo 'lais' • drwy gyfathrebu da. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae Jess yn gallu meithrin cydberthynas â Morgan er mwyn helpu i'w ddiogelu rhag risg.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Jess yn gallu meithrin cydberthynas â Morgan er mwyn helpu i'w ddiogelu rhag risg.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut mae Jess yn gallu meithrin cydberthynas â Morgan er mwyn helpu i'w ddiogelu rhag risg.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
	(ch)	*Trafodwch sut mae Jess yn gallu hybu cynhwysiant yn ei gwaith yn y ganolfan ddydd.* Dyfarnwch hyd at **8 marc** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Gall Jess hybu cynhwysiant yn ei gwaith yn y ganolfan ddydd drwy wneud y canlynol: • bod ag agwedd a dull cynhwysol • defnyddio strategaethau i sicrhau nad yw pobl yn cael eu hallgáu na'u hynysu • cefnogi amrywiaeth drwy dderbyn a chroesawu yr hyn sy'n gwneud pobl yn wahanol • hybu cydraddoldeb a sicrhau cyfle cyfartal i bob unigolyn yn y ganolfan ddydd ni waeth beth fo'i hil, rhywedd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol na chrefydd • cefnogi hawliau pob unigolyn yn y ganolfan ddydd i dderbyn gofal a chymorth ni waeth beth fo'i gefndir na'i gredoau • bod yn ymwybodol o gynhwysiant a mynd ati i'w hybu fel rhan o'i hymarfer. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8			8

Band	AA3
4	**7-8 marc** Trafodaeth ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae Jess yn gallu hybu cynhwysiant yn ei gwaith yn y ganolfan ddydd.
3	**5-6 marc** Trafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Jess yn gallu hybu cynhwysiant yn ei gwaith yn y ganolfan ddydd.
2	**3-4 marc** Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Jess yn gallu hybu cynhwysiant yn ei gwaith yn y ganolfan ddydd.
1	**1-2 farc** Trafodaeth gyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut mae Jess yn gallu hybu cynhwysiant yn ei gwaith yn y ganolfan ddydd.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
3		*Mae Gina yn 85 oed. Mae wedi bod yn byw yn ei fflat ei hun ac mae hi'n cael cymorth a chefnogaeth gan ei mab Anthony i wneud tasgau bob dydd. Mae Anthony wedi bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r gofynion cynyddol sy'n gysylltiedig â gofalu am ei fam, gan fod ganddo ei deulu ei hun. Mae Anthony wedi bod yn trafod â Gina y posibilrwydd ei bod hi'n symud i gartref gofal preswyl.*				
	(a)	*Amlinellwch ystyr y term 'llais, dewis a rheolaeth'.* Dyfarnwch hyd at **3 marc**, un marc am bob disgrifiad perthnasol. *Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol:* Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfraith sy'n sicrhau bod gan unigolion fwy o gyfle i leisio barn am y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu cael. Mae'n rhoi mwy o bwyslais ar hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi llais cryfach a mwy o ddewis a rheolaeth iddynt drwy: • sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed • rhoi dewis a rheolaeth iddynt dros eu gofal a'u cefnogaeth • sicrhau na fyddant yn teimlo'n unig ac na fydd gwahaniaethu'n digwydd yn eu herbyn • cael y gofal a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	3	3		
	(b)	*Esboniwch y ffactorau a fyddai'n gallu cyfrannu at y risg y bydd Gina yn cael ei cham-drin a'i hesgeuluso os yw hi'n aros yn ei chartref ei hun.* Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Efallai: • y bydd Gina yn cael ei hynysu fwy yn gymdeithasol ac na fydd yn gallu cael mynediad at rwydweithiau cefnogi, efallai y bydd yn dechrau teimlo'n unig • na fydd gan Gina fynediad at wybodaeth am y gofal a'r gefnogaeth y gall fod ganddi'r hawl i'w cael • na fydd gwasanaeth eiriolaeth ar gael i Gina ac y bydd yn ei chael hi'n anodd mynegi ei dymuniadau • y bydd Gina yn datblygu hunanhyder isel a hunan-barch isel o ganlyniad i ynysu cymdeithasol a'i chyflyrau meddygol, gall hyn effeithio ar ei gwydnwch • y bydd Gina yn dod yn gynyddol ddibynnol ar ei mab Anthony am ofal, cefnogaeth a gwybodaeth. • y bydd perthynas Gina ag Anthony yn dirywio, gan y bydd o bosibl yn dioddef straen gofalwr wrth ofalu am ei fam a'i deulu. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ffactorau a fyddai'n gallu cyfrannu at y risg y bydd Gina yn cael ei cham-drin a'i hesgeuluso os bydd yn aros yn ei chartref ei hun.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau a fyddai'n gallu cyfrannu at y risg y bydd Gina yn cael ei cham-drin a'i hesgeuluso os bydd yn aros yn ei chartref ei hun.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r ffactorau a fyddai'n gallu cyfrannu at y risg y bydd Gina yn cael ei cham-drin a'i hesgeuluso os bydd yn aros yn ei chartref ei hun.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
3	(c)	*Gwerthuswch rôl y system arolygu wrth ddiogelu unigolion.* Dyfarnwch hyd at **8 marc** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Y system arolygu: • mae'n rheoleiddio ac yn arolygu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogaeth y mae unigolion o bosibl yn eu defnyddio • mae'n cynnal arolygiadau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i unigolion yn cyrraedd y safonau ansawdd priodol • mae'n gweithio ochr yn ochr â darparwyr i'w helpu i wella eu gwasanaethau ac i sicrhau bod unigolion yn derbyn gofal diogel o ansawdd uchel sy'n ei helpu i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael • mae'n sicrhau bod gweithwyr yn trin unigolion ag urddas a pharch • mae'n sicrhau bod unigolion yn cael eu gwarchod rhag niwed a rhag cael eu cam-drin • mae'n cadarnhau bod gan ddarparwyr gofal systemau, polisïau a gweithdrefnau effeithiol • mae'n ymgymryd â rôl fonitro er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd uchel. Gall yr ymateb gyfeirio at y canlyniadau posibl pe na byddai system arolygu ar waith: • ni fyddai unrhyw wirio yn digwydd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gofal a ddarperir yn bodloni'r safonau ansawdd priodol • efallai na fydd unigolion yn derbyn gofal diogel, o safon, ac mae'n bosibl bydden nhw mewn perygl o gael eu hesgeuluso, ac o gael eu cam-drin a'u niweidio. Felly, bydden nhw'n llai tebygol o gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael • ni fyddai unrhyw sicrwydd bod systemau, polisïau a gweithdrefnau effeithiol gan ddarparwyr gofal sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n llywodraethu iechyd a gofal cymdeithasol • efallai na fydd gweithwyr yn trin unigolion ag urddas a pharch • ni fyddai gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8			8

Band	AA3
4	**7-8 marc** Gwerthusiad ardderchog sy'n cynnwys barnau rhesymegol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o rôl y system arolygu wrth ddiogelu unigolion a'r canlyniadau a fyddai'n gallu digwydd o beidio â chael system arolygu yn ei lle.
3	**5-6 marc** Gwerthusiad da sy'n cynnwys barnau rhesymegol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o rôl y system arolygu wrth ddiogelu unigolion a'r canlyniadau a fyddai'n gallu digwydd o beidio a chael system arolygu yn ei lle.
2	**3-4 marc** Gwerthusiad sylfaenol yn cynnwys rhai casgliadau rhesymegol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rôl y system arolygu o ran diogelu unigolion a rhai o'r canlyniadau a fyddai'n gallu digwydd pe na byddai system arolygu yn ei lle.
1	**1-2 farc** Gwerthusiad cyfyngedig yn cynnwys ychydig o gasgliadau wedi'u rhesymu sy'n dangos fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o rôl y system arolygu o ran diogelu unigolion a heb sôn o gwbl am unrhyw ganlyniadau a fyddai'n gallu digwydd pe na byddai system arolygu yn ei lle.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
3	(ch)	*Esboniwch sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cefnogi hawliau Anthony fel gofalwr.* Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid cynnig asesiad i Anthony gan ei bod yn ymddangos bod angen cefnogaeth arno er gwaethaf ei sefyllfa ariannol. Rhaid i'r asesiad gofalwr gynnwys y canlynol: • i ba raddau y mae Anthony yn barod i ofalu am Gina ac i barhau i wneud hynny, ac i ba raddau y gall wneud hynny • y canlyniadau yr hoffai Anthony eu cyflawni • p'un a yw Anthony yn awyddus i weithio neu i barhau i weithio • p'un a yw Anthony yn awyddus i gael addysg/hyfforddiant neu eisoes yn cael addysg/hyfforddiant • p'un a yw Anthony yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden neu eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden • cynllun cefnogi sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cefnogi hawliau Anthony fel gofalwr.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cefnogi hawliau Anthony fel gofalwr.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cefnogi hawliau Anthony fel gofalwr.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
4		*Mae Nora yn 14 oed ac mae ei brawd, Leon, yn 11 oed. Plant ar eu pennau eu hunain yn ceisio lloches yw'r ddau sydd wedi dod i Gymru yn ddiweddar o Albania. Mwslimiaid yw Nora a Leon a dydyn nhw ddim yn gallu siarad llawer o Saesneg. Cafodd y plant eu rhoi mewn gofal maeth.* *Nodwyd eu bod o bosibl wedi bod yn destun "masnachu plant" a chafodd Eiriolwr Masnachu Plant Annibynnol (ICTA) ei benodi ar gyfer y ddau yn dilyn cyngor Canllawiau Statudol.*				
	(a)	*Disgrifiwch rôl Eiriolwr Masnachu Plant Annibynnol (ICTA).* *Rhowch hyd at **4 marc*** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Mae Eiriolwr Masnachu Plant Annibynnol (ICTA) yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi bod yn destun gweithgareddau masnachu neu y mae perygl y byddant yn destun gweithgareddau masnachu er mwyn darparu'r canlynol: • eiriolaeth • cefnogaeth • gwasanaethau cyfeirio • gwasanaethau addas • defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau mewnfudo, y system/prosesau cyfiawnder troseddol. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	4	4		
	(b)	Dyfarnwch hyd at **4 marc** am ddisgrifiad clir *Esboniwch sut mae gweithwyr gofal yn gallu darparu gofal person-ganolog i Nora a Leon.* Dyfarnwch hyd at **6 marc** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Gall gweithwyr gofal ddarparu gofal person-ganolog i Nora a Leon drwy wneud y canlynol: • gwrando ar y ddau ohonyn nhw, er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw 'lais' yn y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu cael • meithrin ymddiriedaeth • sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu hynysu na'u hallgáu'n gymdeithasol • cefnogi eu hamrywiaeth (e.e. eu diwylliant neu grefydd) • mynediad cyfartal • cyfathrebu mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer eu hoedran • darparu cyfieithydd er mwyn cyfathrebu • sicrhau bod camau diogelu ar waith • cyfathrebu rhwng y gwasanaethau sy'n ymwneud â'u gofal. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut gall gweithwyr gofal ddarparu gofal person-ganolog i Nora a Leon.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gall gweithwyr gofal ddarparu gofal person-ganolog i Nora a Leon.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gall gweithwyr gofal ddarparu gofal person-ganolog i Nora a Leon.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
4	(c)	*Trafodwch sut gall yr agwedd sydd gan unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.* Dyfarnwch hyd at **8 marc** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: Mae'n bosibl y bydd Leon a Nora yn dod ar draws agweddau cadarnhaol tuag atynt gan weithwyr gofal sydd: • yn awyddus i'w helpu i ymgartrefu mewn gwlad newydd, bydd hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn gofalu amdanyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi • yn dangos empathi tuag atyn nhw gan eu bod ar eu pennau eu hunain, bydd hyn yn eu helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol • yn cynnig mynediad cyfartal iddyn nhw drwy sicrhau cyfleoedd cyfartal a phriodol • yn gwrando arnyn nhw er mwyn sicrhau bod llais ganddyn nhw • yn cefnogi amrywiaeth ac yn cydnabod eu gwahaniaethau diwylliannol. Mae'n bosibl y bydd Leon a Nora yn dod ar draws agweddau negyddol tuag atyn nhw: • gweithwyr gofal sy'n camddeall pam eu bod yma • agweddau cymdeithasol tuag at eu gwisg a'u diwylliant • gall trafodaethau gwleidyddol negyddol a sylw negyddol yn y cyfryngau am eu crefydd a'u diwylliant arwain at agweddau negyddol tuag at eu gofal gan olygu y byddan nhw o bosibl yn agored i niwed • gweithwyr gofal sy'n teimlo eu bod yn rhoi straen ychwanegol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddod i'r wlad fel ceiswyr lloches. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8	4		4

Band	AA1	AA3
4	**4 marc** Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.	**4 marc** Trafodaeth ardderchog o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.
3	**3 marc** Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.	**3 marc** Trafodaeth dda o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.
2	**2 farc** Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.	**2 farc** Trafodaeth sylfaenol o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.
1	**1 marc** Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.	**1 marc** Trafodaeth gyfyngedig o sut gall agweddau'r unigolion sy'n gweithio gyda Nora a Leon effeithio ar eu gofal.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	**0 marc** Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
5		*Mae Ian yn 73 oed ac wedi bod yn byw tan yn ddiweddar gyda'i bartner tymor hir, Patrick. Mae Ian wedi cael cyfres o strociau ac, o ganlyniad, mae angen cefnogaeth arno i fwyta ac o ran ei ofal personol. Nid oedd am fod yn faich ar Patrick a phenderfynodd fyw mewn cartref gofal.* *Roedd Patrick yn pryderu am sut byddai'r staff a'r bobl eraill a oedd yn byw yn y cartref gofal yn trin Ian. Mae'r ddau yn poeni am safbwyntiau staff a thrigolion y cartref gofal pan fydd Patrick yn ymweld a sut byddan nhw'n yn cael eu trin.*				
	(a)					
	(i)	*Amlinellwch ystyr y termau canlynol:*	3	3		
	(ii)	*"Gwahaniaethu drwy gysylltiad"* *"Gwahaniaethau drwy ganfyddiad"* Dyfarnwch hyd at **3 marc** am **bob** amlinelliad clir. Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Gwahaniaethu drwy gysylltiad: • Gwahaniaethu o ganlyniad i gysylltiad unigolyn ag unigolyn arall sy'n perthyn i grŵp gwarchodedig perthnasol fel: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Gwahaniaethu drwy ganfyddiad: • Gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd canfyddiad ar gam bod ganddo nodwedd warchodedig benodol. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	3	3		

Cwestiwn		Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
	(b)	*Ar ôl ychydig wythnosau, clywodd Sarah un o'r gweithwyr gofal eraill yn sôn am ymweliadau Patrick, gan ddweud bod y ddau yn fwy na dim ond ffrindiau ac yn gwneud sylwadau negyddol am eu perthynas.* *Mae Sarah yn meddwl y dylai hi drafod y mater â'i rheolwr ond mae hi'n ofni y bydd hi'n cynhyrfu ei chydweithiwr.* *Esboniwch bwrpas polisi 'chwythu'r chwiban:* Dyfarnwch hyd at **6 marc** Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Mae dyletswydd ar weithiwr gofal a chymorth i godi pryderon os bydd o'r farn bod diogelwch unigolyn yn y fantol neu fod ei ofal neu ei urddas wedi'i beryglu. Mae 'chwythu'r chwiban' yn ffordd o roi gwybod am bryder mewn perthynas â risg, camwedd neu arferion gwael yn y gwaith. Mae polisi chwythu'r chwiban yn galluogi gweithiwr i sôn wrth reolwr am ei bryderon heb ofni y bydd yn cael effaith andwyol arno. Mae'n annog unigolion i allu trafod eu pryderon mewn ffordd ddiogel a chyfrinachol. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	6		6	

Band	AA2
3	**5-6 marc** Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o bwrpas polisi 'chwythu'r chwiban'.
2	**3-4 marc** Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwrpas polisi 'chwythu'r chwiban'.
1	**1-2 farc** Esboniad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o bwrpas polisi 'chwythu'r chwiban.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Cwestiwn	Ateb	Cyfanswm Marciau	AA1	AA2	AA3
5 (c)	*Archwiliwch y gwahanol ddulliau byddai gweithwyr gofal yn gallu eu defnyddio i sicrhau hawliau'r unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal.* Dyfarnwch hyd at **8 marc** Gall yr ateb gyfeirio at y canlynol: • cyfranogiad gweithredol – cefnogi hawliau unigolyn i gymryd rhan annibynnol yn y gweithgareddau a'r perthnasoedd sy'n rhan o fywyd pob dydd • eiriolaeth – hysbysu unigolion am eu hawliau a'u helpu i fynegi eu barn a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed • grymuso – annog unigolyn i fod yn fwy gweithredol wrth wneud penderfyniadau • dangos egwyddorion gofal yn eu gwaith pob dydd • dilyn deddfwriaeth drwy bolisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu cynnal • gofal wedi'i deilwra'n bersonol – sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth mae unigolyn yn eu derbyn yn cyflawni ei ganlyniadau personol. Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.	8			8

Band	AA3
4	**7-8 marc** Archwiliad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r gwahanol ddulliau y gall gweithwyr gofal eu defnyddio i sicrhau hawliau'r unigolion sy'n byw yn y cartref gofal.
3	**5-6 marc** Archwiliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwahanol ddulliau y gall gweithwyr gofal eu defnyddio i sicrhau hawliau'r unigolion sy'n byw yn y cartref gofal.
2	**3-4 marc** Archwiliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwahanol ddulliau y gall gweithwyr gofal eu defnyddio i sicrhau hawliau'r unigolion sy'n byw yn y cartref gofal.
1	**1-2 farc** Archwiliad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o'r gwahanol ddulliau y gall gweithwyr gofal eu defnyddio i sicrhau hawliau'r unigolion sy'n byw yn y cartref gofal.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

	Mapio Amcanion Asesu: Cydran 1				
Adran A	**Cynnwys**	**AA1**	**AA2**	**AA3**	**Cyfanswm marciau**
1. (a)	**5.1**		**6**		
(b)	**5.4**	**3**			
(c)	**5.3**	**3**			
(ch)	**5.3, 5.4**	**4**		**4**	**20**
2. (a)	**5.1**	**3**			
(b)	**5.2**	**2**			
(c)	**5.4**		**6**		
(ch)	**5.5**			**8**	**19**
3. (a)	**5.3**	**3**			
(b)	**5.1**		**6**		
(c)	**5.4**			**8**	
(ch)	**5.3**		**6**		**23**
4. (a)	**5.3**	**4**			
(b)	**5.4**		**6**		
(c)	**5.5**	**4**		**4**	**18**
5. (a) (i)	**5.5**	**3**			
(ii)	**5.5**	**3**			
(b)	**5.5**		**6**		
(c)	**5.4**			**8**	**20**
		32	**36**	**32**	
CYFANSWM		**32**	**36**	**32**	**100 marc**
		%	**%**	**%**	

ⓗ WJEC CBAC Cyf.